**Crynodeb o Gyfarfod o Fwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 461**
Cynhaliwyd yn yr Egin ac yn rhithiol

10.00, 19 Ionawr 2023

---

**Cofnodion**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
| Rhodri Williams | RhW | (Cadeirydd y Bwrdd) |
| Guto Bebb | GB | (Aelod Anweithredol) |
| Adele Gritten | AdG | (Aelod Anweithredol) – yn rhithiol |
| Chris Jones | CJ | (Aelod Anweithredol) |
| Siân Doyle | SD | (Prif Weithredwr) |
| Llinos Griffin-Williams | LlGW | (Prif Swyddog Cynnwys) – yn rhithiol |
| Elin Morris | EM | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Geraint Evans | GE | (Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi) |
| Geraint Pugh | GP | (Ysgrifennydd Bwrdd S4C) – yn rhithiol |
| Bethan C. Williams | BCW | (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd y Bwrdd) – yn rhithiol |
| **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:** | | |
| Suzy Davies | SuD | (Aelod Anweithredol) |
| Denise Lewis Poulton | DLP | (Aelod Anweithredol) |
| Sharon Winogorski | ShW | (Prif Swyddog Cyllid) |
| Dewi Evans | DE | (Rheolwr Prosiectau) |

---

| | |
|---|---|
| **Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor bawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn cais gan y DCMS am adborth y Bwrdd ar y posibilrwydd o gadw at yr un hyd tymor ar gyfer aelodau anweithredol y Bwrdd wrth ddiweddaru trefniadau llywodraethu S4C yn y Mesur Cyfryngau arfaethedig. Byddai felly modd i'r DCMS benodi aelodau anweithredol am dymhorau o bum mlynedd, ond gyda'r disgwyliad mai tymhorau pedair blynedd fyddai'n arferol.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr argymhelliad gan y DCMS i barhau gyda'r drefn bresennol o benodi Aelodau Anweithredol y Bwrdd am bedair blynedd gyda'r opsiwn i ymestyn i bum mlynedd.**<br><br>Roedd y Cadeirydd hefyd wedi holi'r DCMS ymhellach am y broses sydd ar y gweill i benodi aelodau anweithredol ychwanegol. Fe'i hysbyswyd bod yr argymhelliad i fwrw ymlaen gyda'r broses yn awr yn cael ei ystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol. | RhW / GP |
| **Dashfwrdd Chwarterol i'r DCMS**<br><br>Cyflwynodd SD y fersiwn diweddaraf o'r dashfwrdd chwarterol, oedd wedi cael ei baratoi gan DE ar gyfer cyfarfod chwarterol nesaf S4C gyda'r DCMS ar 13 Chwefror 2023. | |

| | |
|---|---|
| Nodwyd mai rheoli trawsnewid yn fewnol yw un o'r prif risgiau o hyd wrth gyflawni'r Strategaeth newydd. Roedd chwyddiant hefyd yn risg bwysig, ac i'r perwyl hynny roedd trafodaethau eisoes wedi cychwyn efo TAC a gyda deg o'r cwmnïau cynhyrchu – gyda mwy o gyfarfodydd gyda'r sector wedi eu trefnu.<br><br>Trafodwyd y ffaith bod angen mynd ati i benodi arweinyddiaeth barhaol ar gyfer y timoedd cyfathrebu a marchnata – yn enwedig gan fod y dashfwrdd yn dangos bod yr oedi cyn penodi yn effeithio ar gyflawni rhai o'r llifoedd gwaith allweddol erbyn hyn.<br><br>Cafwyd trafodaeth am y gwaith sy'n digwydd efo'r strategaeth platfformau, a nodwyd fod gwaith tendro o ran monitro a chynnal Clic ar wahanol blatfformau am y ddwy flynedd nesaf bellach wedi cychwyn.<br><br>Roedd disgwyl y byddai anghenion S4C o ran chwaraewyr i'r dyfodol yn elfen bwysig o bapur trafod ar 'Sut fydd S4C yn edrych mewn pum mlynedd' – sydd i'w ystyried gan y Bwrdd yn y cyfarfod Cwrdd i Ffwrdd ar 27 Ebrill 2023. Nodwyd i Tim Davie wneud sylwadau'n ddiweddar ynghylch diffodd Teledu Digidol Daearol (DTT) yn y 2030au – roedd y BBC o ganlyniad yn ystyried trefniadau darlledu dros IP i'r dyfodol, a byddai angen i S4C ystyried ein hymateb i hyn.<br><br>Holodd RhW a oedd fformat y dashfwrdd yn cwrdd â gofynion y DCMS, ac os oedd risg bod S4C yn gor-adrodd ar weithgareddau ehangach yn hytrach na chanolbwyntio ar y defnydd o'r £7.5m ychwanegol a ddyfarnwyd i ni o Ffi'r Drwydded. Esboniwyd i ni gytuno ar fformat presennol y dashfwrdd gyda'r DCMS, ond y dylid holi swyddogion y DCMS am fewnbwn ar y cwestiwn hwn yn dilyn y cyfarfod chwarterol fis nesaf.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r dashfwrdd i'w rannu gyda'r DCMS yn y cyfarfod chwarterol nesaf, wedi i'r asesiad risg o ran effaith chwyddiant gael ei adolygu.** | SD / DE / GP |
| **Adroddiad Ariannol Chwarter 3**<br><br>Yn absenoldeb ShW, cyflwynodd SD yr adroddiad ariannol ar gyfer chwarter 3, 2022–23. Nodwyd y prif bwyntiau, a'r ffaith bod ymrwymiadau eleni bellach mwy neu lai wedi gorffen.<br><br>Holodd CJ os oedd unrhyw bryderon o ran chwyddiant ar gyfer cynnwys y flwyddyn nesaf. Adroddwyd nad oedd llawer o broblem ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan fod y rhan helaeth o gynnwys wedi'i gomisiynu a'i gyllidebu. Ychwanegodd LlGW fod Cwrdd i Ffwrdd yr Adran Gomisiynu yn digwydd yr wythnos hon, a'i bod yn hyderus fod cynnwys cryf iawn ar y gweill ar gyfer 2023–24. | |
| **Adolygiad TIAA**<br><br>Cyflwynodd CJ grynodeb ar lafar o ganfyddiadau TIAA, oedd wedi eu comisiynu i ymchwilio i'r cyhuddiadau a wnaethpwyd gan gyn-aelod staff ynghylch trefniadau caffael S4C. Roedd TIAA wedi darparu drafft o'u hadroddiad yr wythnos ddiwethaf, ac nid oeddent wedi adnabod unrhyw gamweithredu ar ran S4C.<br><br>Serch hynny, roedd TIAA wedi gwneud rhai argymhellion yn ymwneud â gwella dogfennu penderfyniadau a mireinio'r prosesau caffael. Roedd y Tîm Rheoli wedi croesawu'r canlyniad hwn, ac wrthi'n drafftio ymatebion i'r argymhellion, fel bod modd i adroddiad terfynol TIAA gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 16 Chwefror 2023.<br><br>Pwysleisiodd SD bwysigrwydd hysbysu'r staff o ganfyddiadau TIAA, gan eu bod wedi cael eu diweddaru'n gyson yn ystod yr ymchwiliad. Cadarnhaodd yr aelodau anweithredol y byddent yn hapus iawn i fynychu cyfarfod o'r staff yn y dyfodol agos i esbonio canlyniad yr adolygiad a chynnig sicrwydd. | |
| **Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2023–24**<br><br>Cyflwynwyd Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2023-24 gan LlGW. Wrth amlinellu prif agweddau'r Cynllun Rhaglenni, esboniwyd mai'r bwriad yw cadw at strwythur go debyg i eleni. Fodd bynnag, roedd y ffocws ar gael y gwerth gorau am arian yn golygu bod modd rhyddhau peth cyllid ar gyfer cynnwys newydd trwy BBC Studios.<br><br>Holodd AG beth ydy'r cynlluniau ar gyfer coroni Siarl III, a'r costau fyddai ynghlwm â hynny. Nododd LlGW nad yw'n hollol glir beth ydy'r cynlluniau ar gyfer y coroni ar hyn o bryd, ond nad oedd yn disgwyl iddo fod ar yr un raddfa ag angladd Elizabeth II.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Cynllun Rhaglenni ar gyfer 2023–24.** | LlGW |
| **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad, gan amlinellu'r cynlluniau a'r cyfarfodydd oedd wedi digwydd dros y cyfnod.<br><br><u>Cynnwys</u> | |

| | |
|---|---|
| Amlinellodd LlGW y blaenoriaethau cynnwys dros y misoedd nesaf, a'r cynyrchiadau oedd ar fin cychwyn. Un o'r cynyrchiadau hynny oedd Pren ar y Bryn, fyddai'n ffilmio yn Ystradgynlais. Bwriad y cynhyrchwyr oedd defnyddio sgiliau lleol cymaint â phosib. Gobeithir y bydd cyfle i drefnu ymweliad â'r set ar gyfer aelodau'r Bwrdd.<br><br>Adroddwyd bod y ddrama Dal y Mellt wedi ei gwerthu i Netflix. Dyma fydd y ddrama uniaith Gymraeg gyntaf i gael ei thrwyddedu ar Netflix, ac y bydd yn cael ei chyhoeddi yno o fis Ebrill 2023 ymlaen.<br><br>Trafodwyd arlwy S4C dros y Nadolig. Wrth wneud hynny, croesawyd ymateb positif y gynulleidfa i sioe Tudur Owen, a chyfresi Chris a'r Afal Mawr, a Colleen Ramsey.<br><br><u>Llythyr gan BECTU</u><br><br>Adroddodd SD i S4C gynnal deuddydd o wrando a sgyrsiau gyda gwahanol dimoedd er mwyn adnabod unrhyw bryderon sydd gan staff, mewn ymateb i'r llythyr a dderbyniwyd gan undeb BECTU ddechrau Rhagfyr 2022. Roedd DE yn awr yn crynhoi'r holl adborth mewn un ddogfen, fyddai'n cael ei ystyried gan y Tîm Rheoli yn y lle cyntaf yr wythnos nesaf, cyn rhannu'r adborth gyda'r staff ddiwedd y mis.<br><br>Roedd SD hefyd wedi cwrdd gyda chynrychiolwyr o BECTU cyn y Nadolig. Esboniodd iddo fod yn gyfarfod buddiol iawn, ac iddynt gytuno i gynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd i drafod yr hyn sy'n digwydd oddi fewn i S4C.<br><br><u>Amrywiaeth</u><br><br>Cafwyd trafodaeth ynghylch y Panel Amrywiaeth oedd wedi cael ei sefydlu, i helpu cynghori S4C wrth i ni fynd ati i gynyddu amrywiaeth yn ein cynnwys. Roedd bwriad i sefydlu panel tebyg ar anabledd. Awgrymwyd hefyd y byddai panel ar gyfer pobl ifanc hefyd yn ddefnyddiol.<br><br>Nodwyd yr angen i gynyddu amrywiaeth ymysg aelodau'r Bwrdd Unedol a'r Tîm Rheoli. Nodwyd bod y broses i recriwtio aelodau anweithredol newydd yn cynnig cyfle yn hyn o beth, ac fe anogwyd pawb i siarad gydag unigolion addas i'w hannog i ymgeisio pan fydd y DCMS yn cychwyn y broses recriwtio. | |
| **Cofnodion Cyfarfod Rhif 460 y Bwrdd (a gynhaliwyd 08.12.22), a Chofnodion y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd.<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig o'r Bwrdd (a gynhaliwyd 14 Rhagfyr 2022), ac fe'u cymeradwywyd.<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor canlynol er gwybodaeth:<br>• Pwyllgor Cynnwys, 8fed o Ragfyr. | |
| **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |
| **Unrhyw fater arall, gwerthuso'r cyfarfod, a busnes cyfarfodydd nesaf**<br><br><u>Agoriad Stiwdios Aria</u><br><br>Roedd aelodau'r Bwrdd wedi eu gwahodd i fynychu agoriad swyddogol Stiwdios Aria yn Llangefni, ar 26 Ionawr 2023. Holwyd i unrhyw un oedd yn bwriadu mynychu hysbysu BCW.<br><br><u>Holiaduron Effeithiolrwydd</u><br><br>Atgoffodd yr Ysgrifennydd yr aelodau i gwblhau'r holiaduron effeithiolrwydd blynyddol a oedd wedi eu cylchredeg yn ddiweddar mewn perthynas â'r Pwyllgorau.<br><br><u>Sesiwn Ddatblygu</u><br><br>Roedd yr Ysgrifennydd wrthi'n trefnu sesiwn ddatblygu ar gyfer aelodau'r Bwrdd, ac wrthi'n ymgynghori ar ddyddiadau posib. Holwyd i bawb ymateb i nodi eu hargaeledd. | |